**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref FM -/01626/20

Ann Jones AS
Cadeirydd
Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru

seneddpll@senedd.cymru

2 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf atoch fel ymateb i'ch llythyrau dyddiedig 9 Hydref ataf i a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ynglŷn ag amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22 mewn perthynas â'i waith ar etholiadau datganoledig Cymru a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer 2020-21 hyd at 2024-25.

Er nad ydym, hyd yma, wedi cael cadarnhad o lefel y cyllid a gaiff ei drosglwyddo i Gymru gan Drysorlys EM mewn perthynas â'r costau hyn, rydym yn rhagweld, yn fras, y bydd yn cyd-fynd â'r amcangyfrif. Byddai rhaid dod o hyd i unrhyw symiau na fyddai'r trosglwyddiad yn eu cwmpasu mewn adnoddau sydd ar gael i Gymru, a lleihau'r symiau sydd ar gael felly ar gyfer gweithgareddau eraill a gwmpesir gan Gynnig y Gyllideb Flynyddol.

Gallaf hefyd gadarnhau bod y gweithgareddau a ddisgrifiwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn yr amcangyfrif a'r cynllun pum mlynedd yn gyson â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r hyn a fydd yn ofynnol yn ystod y cyfnodau a gwmpesir ganddynt. Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor, fodd bynnag, at y ffaith bod gwariant ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021 yn debygol o syrthio yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a blwyddyn ariannol 2021-22.

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i gwblhau cytundeb talu, a fydd yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru, yn unol â'r gyllideb y cytunwyd arni gan y Senedd. Byddaf yn rhannu'r cytundeb hwnnw gyda chi maes o law.

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.